**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Mick.Antoniw@assembly.wales

09 Mehefin 2020

Annwyl Mick,

**Rheoliadau Offeryn Statudol Ledled y DU – Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygiad) 2020**

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod Llywodraeth y DU wedi llunio yr Offeryn Statudol (OS) o dan y pwerau a amlinellir yn Neddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys deddfwriaeth yr UE sy'n rheoli cynlluniau Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol 2020 mewn deddf ddomestig ar Ddiwrnod Ymadael. Mae hyn oherwydd bod y Cytundeb Ymadael wedi datgymhwyso Rheoliad Taliadau Uniongyrchol y DU ar gyfer blwyddyn 2020 o Ddyddiad Ymadael.

Gwnaeth dau OS, a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2020, ddiwygiadau i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol, i'w gwneud yn weithredol yn y DU. Y rhain oedd Rheoliadau Cyllido, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol (Diwygio) 2020 (OS. 2020/90) a Rheoliadau y Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (OS. 2020/91).

Mae'r OS hwn yn gwneud rhagor o ddiwygiadau gweithredu sy'n gysylltiedig â materion sy'n codi o ymadawiad y DU â'r UE na ymdriniwyd yn llawn â hwy ar y pryd. Mae hefyd yn manylu ar y fethodoleg ar gyfer pennu y gyfradd gyfnewid Ewro i Sterling sydd i'w defnyddio i gyfrifo Taliadau Uniongyrchol 2020 i ffermwyr.

Caiff yr offeryn hwn ei wneud yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol.

Mae'r OS hwn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n pennu effaith y diwygiadau ar gael yma:

http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2020/576/contents/made

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth y DU wneud y diwygiadau hyn mewn cysylltiad â, ac ar ran Cymru, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau hyn. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw newid polisi. Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd